# Strategaeth Stadau 2018-2028

## Heddlu Gogledd Cymru





















**HEDDLU GOGLEDD CYMRU**
Gogledd Cymru **diogelach**

**NORTH WALES POLICE**
A **safer** North Wales

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Manylion Cyswllt

| | | |
|---|---|---|
| **Paratowyd gan:** | **Bruton Knowles**<br>Olympus House, Olympus Park<br>Quedgeley, Gloucester GL2 4NF | |
| **Cysylltiadau BK:** | **Peter Hadley**<br>Partner | Ffôn: 01452 880000<br>E: peter.hadley@brutonknowles.co.uk |
| **Paratowyd ar gyfer:** | **Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru,**<br>Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru,<br>Glan y Don, Hen Golwyn,<br>Conwy LL29 8AW | |
| **Cysylltiadau Cleientiaid:** | **Stephen Roberts**<br>Pennaeth Adran<br>Cyfleusterau a'r Fflyd | Ffôn: 01745 588430<br>Stephen.Roberts3@nthwales.pnn.police.uk |
| **Dyddiad:** | 15.06.18 | |
| **Fersiwn:** | 1.5 | |

# Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol....................2
2. Cyd-destun Strategol....................3
3 Methodoleg Strategaeth / Meini Prawf Asesiad....................4
4. Dadansoddi a Chategoreiddio Data....................6
5. Integreiddio TGCh....................7
6. Cyflwyno Partneriaeth....................8
7. Opsiynau Strategaeth - Adeiladau haen 1....................9
8. Opsiynau Strategaeth - Adeiladau haen 2....................9
9. Opsiynau Strategaeth - Adeiladau haen 3....................10
10. Asedau Corfforaethol....................10
11. Gwasanaethau Arbenigol....................10
12. Asedau Eraill....................11
13. Cynllunio Gweithredu a Blaenoriaethau Cyfalaf....................11
14. Polisi Gwerth Cymdeithasol.................... 12
15. Risgiau a Phroblemau Gweithredu.................... 13

# 1. Crynodeb Gweithredol

Nod Strategaeth Stadau 2018 yw sefydlu fframwaith 10 mlynedd er mwyn cyfuno a rhoi stad hyblyg wedi'i dylunio ar gyfer normalrwydd yn hytrach nag eithriadau a lleihau costau refeniw stadau blynyddol ymhellach.

Rhaid i weithredu'r Strategaeth Stadau ystyried a chynnwys canlyniadau rhaglenni eraill ledled yr Heddlu lle mae galluogi digidol, gallu gweithlu ac adolygiadau newid yn cael eu gweithredu.

Mae Strategaeth Stadau 2018 yn adeiladu ar y prosiect cyfalaf mawr a'r rhaglen gwella asedau sydd wedi'i gyflwyno ers 2012. Mae elfennau terfynol y gweithrediad hwn i fod i'w gyflwyno ar ddiwedd 2018 gyda chwblhau prosiectau Llai a Chanol Tref Wrecsam.

Daeth y broses ymgynghori fewnol ac allanol i'r casgliad y dylai Stad Heddlu Gogledd Cymru anelu i fod mor hyblyg, addasadwy, effeithlon a fforddiadwy ag y gall strwythur a chyllidebau mewnol ganiatáu.

Mae eiddo portffolio wedi cael eu categoreiddio fel Haen 1 (Cadw – Blaenoriaethau gweithredol), Haen 2 (Cadw – Lleoliadau lleol a weithredwyd) neu Haen 3 (Rhesymoli – Ad/Cyd-leoli neu wagio). Mae 24 safle wedi'u categoreiddio fel Haen 1, 13 fel Haen 2 a 13 fel Haen 3.

Mae asedau corfforaethol yn gofyn am ddadansoddiad defnyddio lle parhaus er mwyn gwireddu arbedion cost posibl. Mae lleoedd swyddfa yn parhau'n gyfle i gyfuno lleoedd corfforaethol ac ail-osod lleoedd posibl i drydydd parti. Dylid hefyd ystyried darpariaeth gynyddol o weithfannau achlysurol mewn adeiladau ar gyfer hyblygrwydd gwell ar gyfer y gweithlu.

Mae gwasanaethau arbenigol i'w cadw os ydynt mewn defnydd gweithredol neu'n parhau fel cyfleusterau parhad busnes neu lle gall gofynion y dyfodol newid.

Bydd holl eiddo Heddlu Gogledd Cymru yn amodol ar gynllunio busnes trylwyr lle mae angen buddsoddi neu ddiddymu.

Mae'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Strategaeth Stadau arfaethedig yn cynnwys: integreiddio Strategaeth Stadau gyda rhaglenni newid ledled yr Heddlu; a chydnabod manteision anariannol presenoldeb cymunedol a chyfathrebiad strategaeth eglur a chyson sydd wedi alinio â Strategaeth Gorfforaethol 10 mlynedd yr Heddlu.

## 2. Cyd-destun Strategol

Yn ychwanegol at ddadansoddi, ymgynghori a gwerthuso opsiynol sy'n gysylltiedig ag adolygu'r Stad, mae gan Heddlu Gogledd Cymru bortffolio rhaglenni newid ledled yr Heddlu a wnaiff effeithio dichonolrwydd a gweithredu newidiadau i'r Stad yn uniongyrchol ac anuniongyrchol.

Mae rhaglenni penodol sy'n effeithio'r amseru a'r arbedion cost posibl yn ystod gweithredu'r Strategaeth Stadau yn cynnwys y canlynol:

- **Rhaglen Galluogi Digidol** – mabwysiadu gweithio hyblyg a symudol;
- **Rhaglen Gallu'r Gweithlu** – adnoddau a hyblygrwydd GPLl;
- **Rhaglen Cydweithredu a Newid** – hyfywedd rhannu asedau gyda phartneriaid.

Canolbwyntiodd yr Adolygiad Stadau a ymgymerwyd yn 2011 ar yr angen am nifer o ddatblygiadau newydd. Gellir crynhoi'r prif ganlyniadau o gyflwyno'r strategaeth hon rhwng 2012 a 2017 fel a ganlyn ('U/C' = yn cael ei adeiladu ym mis Mawrth 2018):

- **Datblygiadau Newydd** - Llangefni, Llandudno, Llai (U/C) a Wrecsam (U/C);
- **Ad/Cyd-leoli** - Gorsafoedd Heddlu ym Mhenrhyndeudraeth, Bethesda, Tywyn (Gwynedd), Nefyn, Y Waun, Y Fflint a Threffynnon;
- **Adnewyddu / gwneud yn llai o faint** - Llangollen, Bae Colwyn;
- **Wedi ildio** – Gaerwen, Tywyn (Conwy), Y Fali
- **Symud gwasanaethau** - HA, AGC, UIG, ASP.

Mae arbedion cyllidebol sylweddol yn debygol o fod yn angenrheidiol ar gyfer y dyfodol i ddod. Bydd y cynllun plismona diwygiedig yn effeithio gofynion gan adeiladau ffisegol a chysylltedd rheoli TG a data.

Rhaid i ddarparu Stad addas i'r pwrpas gael ei adolygu wrth i'r cynllun gweithredu yn y dyfodol gael ei weithredu a'i gaboli. Y dyhead yw canolbwyntio ar ôl trosedd lleoliadau adleoli a gynorthwyir gan ystod o gyfleusterau cyswllt cyhoeddus a rhwydwaith TG integredig a symudol.

Nod cyffredinol y Fframwaith Strategaeth Stadau yw sicrhau fod yr isadeiledd a ddarperir ledled Stad Heddlu Gogledd Cymru yn cynorthwyo'n gyfan gwbl i ddarparu Gogledd Cymru Diogelach.

# 3. Methodoleg Strategaeth

Roedd cyfnod cychwynnol fformiwleiddio Strategaeth Stadau yn cynnwys gwaith maes a dadansoddi sefyllfaoedd er mwyn casglu data ar gyfer proses werthuso er mwyn categoreiddio'r asedau amrywiol.

Roedd gwaith maes yn cynnwys arolygiadau eiddo mewnol ac allanol y mwyafrif o safleoedd HGC, gan gynnwys Cyfleusterau Corfforaethol ac Arbenigol. Roedd ymweliadau safleoedd yn cynnwys trafodaethau gyda swyddogion ac arolwg o'r ardal leol ar gyfer dadansoddi'r sefyllfa a chyfleoedd cyd-leoli lle bo'n bosibl.

Yn dilyn yr ymweliadau safle, ymgymerwyd â phroses ymgynghori gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Roedd rhanddeiliaid mewnol yn cynnwys Uwch Swyddogion o Weithrediadau Ardaloedd, cynrychiolwyr o'r Heddlu Gwirfoddol a'r Isadran Gwasanaethau Trosedd ac Uwcharolygydd y Rhaglen Gwelliant Gweithredol. Cyfwelwyd penaethiaid swyddogaethau cymorth hefyd gan gynnwys TGCh, Hyfforddiant a Dysgu a Datblygu.

Roedd rhanddeiliaid allanol yn cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau brys eraill (Tân ac Achub, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru), Bwrdd Iechyd a'r chwe Awdurdod Lleol.

Rhoddodd holl randdeiliaid a gyfwelwyd adolygiad cynhwysfawr o broblemau adrannol neu sefydliadol unigol ac mae **Tabl 1** yn crynhoi'r themâu cyffredinol a nodwyd o'r broses hon:

**Tabl 1 – Crynodeb o adborth ymgynghoriad mewnol ac allanol**

| **Hyblygrwydd –** Dyrannu Adnoddau | **Addasrwydd –** Newid Arferion Gweithio |
|---|---|
| Strwythur adnoddau effeithlon – gwneud y gorau o allu | Rhwydwaith fewnol TG – technoleg symudol a hyblyg |
| Cynllun yn addasu i amrywiadau mewn galw | Gweithio parhaus gyda gwasanaethau brys |
| Rhaid i'r stad fod yn addas i'r diben ac yn hyblyg | Partneriaethau gyda chyrff sector cyhoeddus eraill |
| **Effeithlonrwydd –** Defnyddio Asedau | **Fforddiadwyedd** – Blaenoriaethau Cyfalaf |
| Effeithlonrwydd lle a meincnodau defnydd | Nodi meini prawf buddsoddi cyfalaf allweddol |

| | |
|---|---|
| Uwchraddio cost-effeithiol/ailddefnyddio ardaloedd gweddilliol | Matrics Blaenoriaethu Cyfalaf – pwysiadau |
| Blaenoriaethu cynnal a chadw ôl-groniadau | Ystyried cyfalaf a refeniw rheolaidd |

## Meini Prawf Asesu

Yn dilyn y gwaith maes, dadansoddi sefyllfa ac ymgynghori'r Stad, cytunwyd ar a defnyddiwyd meini prawf asesu i ddadansoddi'r portffolio asedau. Mae **Tabl 2** isod yn adeiladu ar y meini prawf a ddefnyddiwyd yn Adolygiad Stadau 2011 drwy gynnwys elfen o gyfle Rheoli Asedau (Defnyddio Lleoedd) ac asesiad o weithredu technoleg symudol / hyblyg (posibilrwydd o 'ddatgysylltiad' TG):

**Tabl 2 – Crynodeb o feini prawf a fabwysiadwyd a data ffynonellau**

| Meini Prawf Asesu | Data ffynonellau |
|---|---|
| **Pwysigrwydd Gweithredol** | Ymgynghoriadau Mewnol, Adolygiad Patrolau GPLl, Adborth Pwyllgor |
| **Addas i'r Diben** | Arolygon eiddo, Ymgynghoriadau Mewnol, Adolygiad 2011 |
| **Costau Gweithredol Adeiladu** | Meincnodi CIPFA / NPEF – 27.11.17 |
| **Defnyddio Lleoedd** | Meincnodi CIPFA / NPEF – 27.11.17. Arolygon eiddo |
| **Cyfleoedd am Gyd-leoliadau** | Arolygon lleol. Ymgynghoriadau Allanol. |
| **Posibilrwydd o 'ddatgysylltiad' TG** | Ymgynghoriad TGCh Mewnol. Costau Rhwydwaith Ardal Leol (LAN)/Rhwydwaith Ardal Eang (WAN). |

Rhaid i'r broses penderfyniadau yn y dyfodol ar gyfer cadw, adolygu neu resymoli asedau sicrhau:

1. Y gellir cynnal plismona cymunedol gyda lleoliad lleol addas i'r diben – gwelededd, mynediad, cyfleusterau llesiant swyddogion ac ymarferoldeb isadeiledd digonol (meysydd parcio ayyb);

2. Bod ymarferoldeb ac ategiad TGCh ar gael ar gyfer holl leoliadau o dan ystyriwyd gyda phrofion cysylltedd llym a dealltwriaeth lawn o gostau TGCh;

Edrychir ar gostau gweithredu mewn ffyrdd arloesol er mwyn lleihau cynnal a chadw a biliau ynni drwy gynllun rheoli carbon gweithredol, gan 'fuddsoddi i arbed' lle mae'r cyfleoedd yn codi.

## Meincnodi Cost Stadau

Cyflwynir stadau a chostau adeiladau canolog Heddlu Gogledd Cymru yn flynyddol i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Mae'r proffilio gwerth am arian yn cymharu bob heddlu gyda'i 'grŵp tebycaf'. Mae'n dadansoddi costau manwl adeiladau unigol drwy wasanaeth meincnodi'r Grŵp Stadau Heddlu Cenedlaethol (NPEG).

Ymgorfforir y proffiliau a gwybodaeth hyn, gan ystyried nodweddion ardal Heddlu Gogledd Cymru, i'r Cynllun Gweithredu.

## 4. Dadansoddi a Chategoreiddio Data

Defnyddiwyd y dadansoddiad data cyfunol, tystiolaeth gwaith maes ac adborth ymgynghoriad i gategoreiddio asedau o fewn y portffolio yn ôl eu pwysigrwydd, cyflwr, cost a defnyddioldeb.

Mabwysiadwyd categori Haen 1 lle aseswyd asedau fel bod â hyfywedd tymor hir ac wedi'u nodi fel hanfodol yn y cynllun plismon a'r strategaeth gorfforaethol yn y dyfodol.

Mabwysiadwyd categori Haen 2 lle'r oedd asedau'n bwysig o ddarpariaeth adnoddau lleol, wedi'u lleoli'n strategol a lle'r oedd ad/cydleoli a gwneud yn llai o faint wedi digwydd. Roedd y categori hwn yn cynnwys eiddo lle'r oedd buddsoddiad tymor hir wedi'i wneud, roedd prydlesau yn parhau neu roedd costau'n eithaf isel ar gyfer y lefel o wasanaeth a ddarparwyd. Mae Haen 2 yn cynrychioli is-bortffolio asedau sy'n darparu asedau plismona lleol o gyfleusterau gwerth am arian.

Mae Haen 3 yn cynrychioli asedau sy'n ymylol yn weithredol oherwydd eu maint, tymhorau, lleoliadau ymylol neu addasrwydd i'r diben. Mae'r asedau hyn angen adolygiad yn ôl meini prawf cadw / rhesymoli / adleoli llym a dylid paratoi achosion busnes ar gyfer dyfodol y sefydliadau hyn o fewn cyd-destun adolygiadau ehangach presennol yr Heddlu. Mae **Tabl 3** isod yn crynhoi'r rhagdybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer categoreiddio asedau yn y portffolio:

**Tabl 3 – Rhagdybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer categoreiddio asedau**

| Meini Prawf Asesu | Haen 1 - Cadw (Tymor Hir) | Haen 2 – Cadw (Tymor Canolig) | Haen 3 – Rhesymoli (Tymor Byr) |
|---|---|---|---|
| **Pwysigrwydd Gweithredol** | Blaenoriaethau gweithredol a nodwyd yn Adolygiadau GPLl | Gorsafoedd llai gyda phresenoldeb patrôl cyfyngedig | Lleoliadau llai, tymhorol neu ymylol |
| **Addasrwydd i'r Diben** | Addas i'r diben neu i'w flaenoriaethu ar gyfer | Da – ad/cydleoli neu adnewyddu diweddar | Ymarferoldeb cyfyngedig neu weddill defnydd blaenorol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cynllun cyfalaf | | |
| **Costau Gweithredol Adeiladu** | Economïau graddfa – cost gyfartalog isel i ganolig | Gwireddu arbedion costau stad gweithredol | Cost gyfartalog i bob m2 ond cyfanswm treuliau isel |
| **Defnyddio Lleoedd** | Defnydd effeithlon neu allu gwelliant defnyddio | Defnydd gweithredol wedi'i wireddu drwy wneud yn llai o faint | Defnydd canolig i isel gyda defnydd 24/7 cyfyngedig |
| **Cyfle i Gydleoli** | Safleoedd mwy – cyfleoedd cydleoli'n gyfyngedig | Mwyafrif o gyfleoedd wedi'u gweithredu | Posibilrwydd am gyfleusterau gweithfannau achlysurol |
| **Posibilrwydd am ddatgysylltiad TGCh** | Mae safleoedd mwy angen cysylltedd parhaol | Uchel – plismona lleol gyda phosibilrwydd i fod yn symudol/hyblyg | Uchel – Cynllun arbrofol symudedd TGCh presennol ar y gweill |

## 5. Integreiddio TGCh

Mae'r Strategaethau Stadau a TGCh â chysylltiad cryf yng nghyd-destun y gweithle modern. Mae'r ddwy yn cynorthwyo Strategaeth Busnes Digidol 10 mlynedd yr Heddlu.

Yr egwyddor strategol yw rhoi datrysiadau symudol i swyddogion i'w rhyddhau o orsafoedd a'u galluogi i dreulio mwy o amser hwnt ac yma yn y cymunedau a wasanaethant.

Mae cyfle i leihau costau rhwydweithiau mewnol TGCh (rhwydweithiau a byrddau gwaith) gan fod mwy o ffyrdd hyblyg o weithio drwy lechi/gliniaduron a chyflwynir Wi-Fi.

Rhaid i'r newid busnes sylweddol hwn fod ar y cyd â rhaglen newid ddiwylliannol.

Mae manteision disgwyliedig y rhaglen newid hon yn cynnwys:

- Costau rhwydweithiau mewnol TGCh sefydlog (cost flynyddol uchel Rhwydwaith Ardal Eang [WAN] ar hyn o bryd);
- Effeithlonrwydd cynyddol mewn gwaith (datganiadau tyst, casglu tystiolaeth, gweledeedd);
- Mwy o weithio mewn partneriaeth effeithiol (heddluoedd eraill ac asiantaethau partner);
- Mwy o ddefnydd effeithlon a rhesymoli posibl o Stad yr Heddlu.

## Cynllun Arbrofol Prestatyn

Gyda’r Strategaeth Ddigidol TGCh yn hanfodol i weithredu unrhyw Strategaeth Stadau yn y dyfodol, mae cynllun arbrofol ar gyfer cyflwyno technoleg symudol defnydd personol (llechi) i roi mwy o hyblygrwydd wrth weithio’n ardal Prestatyn wedi’i gychwyn. Gweithredir hyn fel rhan o adleoli arfaethedig tîm Prestatyn i adeilad arall yng nghanol y dref tra gwneir addasiadau gan gynnwys gweithfan achlysurol, ystafell cyfweliadau gwirfoddol a chyfleusterau llesiant sylfaenol.

Bydd llinell ffôn y tu allan a gorsaf ddocio / monitorau ar gyfer llechi. Ond fel arall ni fydd angen cysylltiadau rhwydwaith a chyfrifiaduron bwrdd gwaith. Os yn llwyddiannus, gellir cyflwyno’r cynllun arbrofol i safleoedd posibl eraill a all ganolbwyntio ar weithio hyblyg.

# 6. Cyflwyno Partneriaeth

Cydleolir nifer o gyfleusterau presennol Heddlu Gogledd Cymru gydag asiantaethau partner.

Mae partneriaethau gydag Awdurdodau Lleol (Y Fflint, Treffynnon), gwasanaethau brys eraill (Tywyn, Bwcle) neu drydydd parti (Bethesda, Penrhyndeudraeth, Y Waun) yn cynrychioli cydleoli ar gyfer manteision economaidd a gweithredol cadarnhaol.

Y cytundeb partneriaeth diweddaraf ym Mwcle yw lle mae’r Tîm Cymdogaethau Diogelach wedi cydleoli gyda’r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae'n cynrychioli datrysiad lleol cost effeithiol o eiddo Haen 2 o ganlyniad i ddadansoddiad gwneud yn llai o faint ac adleoli manwl.

Mae cyfleoedd partneriaeth yn bodoli mewn eiddo Haen 1 a Haen 3 yn amodol ar ystyried opsiynau a dadansoddiad manwl.

Mae trefniadau partneriaeth yn parhau’n un opsiwn pan mae Heddlu Gogledd Cymru yn ystyried gwneud yn llai o faint, adleoli neu resymoli asedau. Mae hyn yn amodol arno’n cyflwyno manteision economaidd a / neu weithredol.

Risg allweddol i fonitro yw’r trefniant prydlesu tymor hirach gyda sefydliadau partner lle gall rhenti ‘partner’ symud i lefelau marchnad ar adolygiad rhenti.

## Canolbwynt ar Ddiogelu

Mae'n hanfodol fod gweithio mewn partneriaeth i Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi cymorth effeithiol i unrhyw oedolyn neu blentyn i atal camdriniaeth, cam-fanteisio neu esgeulustod. Mae'r Uned Gwarchod Unigolion Bregus (PVPU) yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner (gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol) i sicrhau ymateb priodol pan mae pobl fregus ynghlwm.

Bydd cynlluniau'r stad bresennol ac yn y dyfodol yn hwyluso cyflwyno cymorth i bobl fregus drwy hygyrchedd a gweithredu protocolau eglur er mwyn sicrhau y cyfarwyddir pobl fregus i le diogel ar y cyfle cyntaf.

## 7. Opsiynau Strategol – Adeiladau Haen 1

Mae'r dadansoddiad manwl, ymgynghoriad a blaenoriaethu gweithredol eiddo wedi dod i'r casgliad y dylid cadw 24 lleoliad ar gyfer dibenion blaenoriaeth gweithredol. Mae nifer o'r asedau hyn yn ddiweddar neu'n newydd / datblygiadau sydd ar fin cael eu cwblhau (Llangefni, Llandudno, Llai a Wrecsam).

Cedwir tri eiddo presennol ar brydlesau a bydd nifer yn amodol ar gynllunio adleoli / ailddatblygu gan eu bod ar hyn o bryd yn anaddas i'r diben ond yn flaenoriaeth leoliadol yn ddaearyddol.

Bydd sawl ased angen gwerthusiadau opsiynau tymor canolig gan fod angen i'r adeiladau gael eu haddasu i'r cynllun plismona newydd.

## 8. Opsiynau Strategol – Adeiladau Haen 2

Daeth dadansoddiad manwl, ymgynghoriad a blaenoriaethu gweithredol eiddo Heddlu Gogledd Cymru i'r casgliad y dylid cadw 13 lleoliad, gan eu bod eisoes wedi mynd yn llai neu wedi ad/cydleoli.

Cydleolir sawl ased gyda gwasanaethau brys eraill, Awdurdodau Lleol neu drydydd parti.

Mae manteision cadw ar hyn o bryd yn mynd tu hwnt i'r manteision gwaredu posibl lle mae buddsoddiad wedi'u wneud mewn gorsafoedd rhydd dros y 5 mlynedd diwethaf.

## 9. Opsiynau Strategol – Adeiladau Haen 3

Daeth dadansoddiad manwl, ymgynghoriad a blaenoriaethu gweithredol eiddo Heddlu Gogledd Cymru i'r casgliad y dylid cadw 13 lleoliad, gan eu bod angen adolygiad ar gyfer ad/cydleoli neu resymoli.

Mae nifer o'r asedau hyn angen ystyriaeth ofalu ac o bosib gall eraill eu gwerthu ar unwaith. Mae eraill angen asesiadau cymunedol lleol gan eu bod yn cynrychioli safleoedd bach ac ymylol iawn lle gall safleoedd lleol mwy hwyluso'r swyddogion. Fodd bynnag, gall y gofynion presenoldeb cymunedol fod yn drech na'r manteision posibl o resymoli'r asedau hyn.

Mae holl eiddo Haen 3 angen dadansoddiad ac ymgynghoriad gofalus cyn y mabwysiadir cynigion gweithredu cadarn.

## 10. Asedau Corfforaethol

Mae Stad Gorfforaethol Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys 10 lleoliad. Mae un eiddo i fod i'w wagio ym mis Mehefin 2018 (Porthladd Mostyn). Mae'r rhan fwyaf o asedau sy'n weddill ym Mae Colwyn neu Lanelwy. Mae Glannau Dyfrdwy'n cadw swyddfeydd y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau a'r Ganolfan Comisiynu Cerbydau.

Mae asedau corfforaethol angen dadansoddiad defnyddio lleoedd parhaus er mwyn gwireddu arbedion costau posibl. Mae lleoedd swyddfa'n parhau'n gyfle ar gyfer cyfuno lleoliad corfforaethol ac o bosib ailosod lle i drydydd parti. Dylid hefyd ystyried darpariaeth gynyddol o weithfannau achlysurol mewn rhai adeiladau ar gyfer gwell hyblygrwydd i'r gweithlu.

## 11. Gwasanaethau Arbenigol

Mae Stad Gwasanaeth Arbenigol Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys 5 lleoliad. Mae'r brif ddeiliadaeth yn Llanelwy gyda'r hen gyfleuster Cymorth Awyr (sydd nawr yn storfa archif a chyfleuster i'r adran gŵn), Maes Tanio a'r Uned Rheoli Ffyrdd. Mae hyn yn cynrychioli asedau eraill lle mae buddsoddiad sylweddol wedi digwydd.

Mae gwasanaethau arbenigol i'w cadw os ydynt mewn defnydd gweithredol neu'n parhau fel cyfleusterau wrth gefn lle gall gofynion y dyfodol newid (e.e. cymorth awyr).

## 12. Asedau Eraill

Mae dau dŷ plismon yn parhau o fewn y stad ond cedwir rhain yn unig hyd nes y bydd y tenantiaid yn gadael neu'n penderfynu prynu'r ased.

## 13. Cynllunio Gweithredu a Blaenoriaethau Cyfalaf

Bydd holl eiddo Heddlu Gogledd Cymru yn amodol ar gynllunio busnes trylwyr pan mae angen buddsoddi neu ddiddymu. Mae **Tabl 4** yn darlunio sampl o fatrics ar gyfer blaenoriaethu cronfeydd cyfalaf:

**Tabl 4 – Sampl o Fatrics Blaenoriaethu Cyfalaf**

| Meini Prawf | Blaenoriaethu Cyfalaf – Cyllideb 2018/2019 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disgrifiad | Blaenoriaeth Uchel | Blaenoriaeth Ganolig | Blaenoriaeth Isel | Sgôr | Pwysoliad |
| **Blaenoriaethau Sefydliadol** | Asesiad cychwynnol gan y Pennaeth Cyfleusterau a'r Fflyd i gadarnhau y bydd y prosiect yn cynorthwyo i gyflawni yn erbyn amcanion yr Heddlu. | Pwysigrwydd cenedlaethol a ledled yr Heddlu | Pwysigrwydd rhanbarthol | Pwysigrwydd lleol | 0-10 | 25% |
| **Risg Sefydliadol** | Asesu lefel o leihau risg drwy weithrediad gyda risgiau enw da / parhad busnes. | Effaith lleiaf | Effaith canolig | Effaith mawr | 0-10 | 15% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydymffurfiaeth Statudol** | Mae adeiladau addas i'r diben yn hanfodol – sicrwydd gan landlordiaid trydydd parti ar gyfer galwedigaeth cwbl gydsyniol. | Tebygolrwydd isel ac effaith isel | Tebygolrwydd canolig ac effaith canolig | Tebygolrwydd uchel ac effaith isel | 0-10 | 15% |
| **Nawdd Prosiect** | Mae risgiau yn gostwng lle sicrheir nawdd allanol neu a rennir. Asesu lefel a chyflawnadwyedd nawdd. | Lefel uchel o nawdd allanol/ar y cyd | Lefel ganolig o nawdd allanol/ar y cyd | Lefel isel neu ddim nawdd allanol/ar y cyd | 0-10 | 10% |
| **Effaith Refeniw** | Llai o bwysau ar gyllidebau refeniw yn y dyfodol neu gyfleoedd i greu incwm | Gostyngiadau refeniw | Refeniw niwtral | Cynnydd mewn refeniw | 0-10 | 15% |
| **Rheoli Prosiectau** | Arfer da mewn Dogfen Cychwyn Caffael – caffael, cychwyn, monitro. Sicrhau cyfranogiad TGCh, AD, Adran Gyllid, Adran Gyfreithiol ayyb. | Da ac wedi cynllunio'n dda | Cymhleth/dibynnu ar aml-randdeiliaid | Cost ac amser damcaniaethol / tybiedig | 0-10 | 10% |
| **Rheoli Amgylcheddol** | Cyflawniad ynni, defnydd dŵr, rheoli gwastraff, cludiant a chaffael | Effaith isel | Effaith canolig | Effaith uchel | 0-10 | 10% |
| | | | | **CYFANSWM SGÔR GYMHWYSOL** | 70 | 100% |

## 14. Polisi Gwerth Cymdeithasol

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn anelu i arwain Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru mewn amgyffred Gwerth Cymdeithasol a chreu economi leol well a chryfach, gan greu twf, swyddi a chyfleoedd i bobl leol. Mae'r Polisi angen i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yr Heddlu a'n Cyflenwyr i gymryd cyfrifoldeb am beth a gomisiynir ac a gafaelir ac i gyflwyno'n blaenoriaethau Gwerth Cymdeithasol yn foesegol a chyfreithiol.

Mae'r Polisi wedi bod yn seiliedig ar gynorthwyo Blaenoriaethau Sefydliadol presennol. Gwnawn wahodd cynigion arloesol gan gyflenwyr hen a newydd sy'n manylu sut gall gwasanaeth gael ei gyflwynol. Ar yr un pryd, mae'n cynorthwyo cyflwyno'r blaenoriaethau hyn.

Gwnawn geisio sicrhau yr ystyrir problemau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel rhan o weithredu'r Strategaeth Stadau yn ystod holl gyfnodau'n proses o gomisiynu a chaffael ac fel rhan o gost oes cytundeb.

## 15. Risgiau a Phroblemau Gweithredu

Mae nifer o risgiau a nodwyd sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Strategaeth Stadau arfaethedig:

- Mae'r strategaeth 10 mlynedd yn cynrychioli ffrâm amser sylweddol
- Blaenoriaethu'n cael ei yrru gan ofynion gweithredol a'r adolygiadau sydd ar y gweill
- Gwnaiff polisïau / cynllun newid yn ddi-os
- Mae angen rheoli'r rhaglen yn effeithiol yn gyffredinol
- Integreiddio Strategaeth Stadau gyda rhaglenni newid ledled yr Heddlu
- Cydnabod manteision anariannol presenoldeb cymunedol
- Trefniadau partneriaid tymor hir i'w craffu
- Monitro cynnal a chadw ôl-groniadau yn y cynllun cyfalaf
- Cyfathrebiad strategaeth eglur a chyson